# Buddsodi ym Myd Natur


YN EIN CARTREF, EICH GWEITHLE, A PHOLISÏAU'CH MUDIAD



# Buddsoddi Ym Myd Natur

**Mae'r cyllidwyr am i chi wneud rhywbeth dros fyd natur ond diben eich grŵp yw helpu pobl neu anifeiliaid ac rydych eisoes yn gwneud llawer iawn o bethau eraill. A yw hyn wir yn berthnasol i chi?**

**Mewn gair - ydi, mae e'!**
**Ond peidiwch â phoeni...**



Mae'r awgrymiadau a geir yma yn rhai syml i'w rhoi ar waith a byddant yn:

- Arbed arian i chi, gan gwrdd â chyfrifoldebau ymddiriedolwyr
- Arbed amser i chi, gan roi mwy o amser i wneud y pethau pwysig
- Gwella profiad gwaith staff a gwirfoddolwyr a llesiant
- Cynyddu cyfleoedd i gael dylanwad ehangach ar gymdeithas
- Cyflawni rhwymedigaethau'r grŵp i ateb gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015




# PAM LLUNIO POLISI SY'N CEFNOGI AC YN CYNORTHWYO BYD NATUR?

Mae ar fyd natur angen i ni roi lle iddo fyw. Rydym ar ein hennill gryn dipyn o fyd natur; mae'n ein bwydo ni, yn rhoi dillad i ni, yn glanhau aer a dŵr ac yn gwneud i ni deimlo'n hapus. Os ydym am barhau i gael y buddion hyn ac am i'n plant a phlant ein plant fwynhau byd natur yna mae angen i ni roi help llaw iddo oherwydd mae natur yn dirywio – yn lleol ac yn fyd-eang.

Cydnabyddir hyn yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** sy'n gosod 7 nod i Gymru weithio tuag atynt. Mae un o'r nodau hyn yn ymwneud ag ecosystemau iach, gweithredol – natur – a all sicrhau amgylchedd naturiol cydnerth i ni sy'n gallu ymdopi â newidiadau yn y dyfodol. Mae'n debygol y daw cyfraniadau at hyn (ochr yn ochr â'r nodau eraill) yn ofyniad yn y dyfodol ar gyfer cyllid cyhoeddus.

Gallwn helpu byd natur drwy ystyried a fydd yr hyn rydym yn ei wneud yn niweidiol, efallai filltiroedd i fwrdd ac wythnosau neu flynyddoedd yn ddiweddaraf, a beth yw'r dewisiadau eraill. Pan wyddem beth rydym yn ei wneud ac yn deall rhai o'r goblygiadau, gallwn wneud penderfyniadau deallus a gwneud pethau mewn ffordd wahanol.



**I gael gwybodaeth ac ysbrydoliaeth ynglŷn â beth mae byd natur yn ei wneud a pham mae arno angen ein cymorth ni, gwyliwch un o arbenigwr natur mwyaf blaenllaw Cymru, Iolo Williams, yma...**

**...neu darllenwch ynglŷn â rhyfeddodau byd natur a pham mae arnom angen mwy o gyswllt ag ef yma.**



**1. Camau Cyntaf**

Weithiau y camau cyntaf tuag at wneud pethau cadarnhaol dros natur yw rhoi'r gorau i wneud pethau negyddol. Gall newidiadau bach hyd yn oed gael effaith fawr. Bydd pethau fel defnyddio compost heb fawnog ynddo, rhoi sborion allan i'r adar, a gadael tyllau ar gyfer creaduriaid bach yn rhoi budd i fyd natur yn ogystal ag i chi a'ch gwirfoddolwyr – fel y dengys y canllaw hwn.

**2. Dod o Hyd i Gyfleoedd i Wneud Mwy**

Yn ogystal â pheidio â gwneud y pethau negyddol, mae yna lawer o bethau cadarnhaol y gallwn ei wneud i fyd natur a fydd bron bob tro o les i ninnau hefyd. Mae'r canllaw isod yn nodi pethau syml, effeithiol y gellir eu gwneud o'r gegin i'r ardd a chefn gwlad, ac yn egluro pam mae'r rhain yn bwysig a'r gwahaniaeth y gallant ei wneud.

**3. Ysgrifennu Polisi a'i Roi ar Waith**

Os ydych yn penderfynu y gallwch wneud mwy dros fyd natur yna bydd nodi'r hyn rydych yn dewis ei wneud mewn polisi amgylcheddol yn helpu i sicrhau eu bod yn cael eu gwneud yn gyson yn eich grŵp/mudiad drwyddo draw. Bydd hyn hefyd yn dangos i gyllidwyr, a phobl sydd efallai am gaffael eich gwasanaethau, fod gennych ddealltwriaeth dda o gynaliadwyedd a nodau llesiant Cymru.

Mae mudiadau trydydd sector yn aml wedi arwain y ffordd ar faterion amgylcheddol o bwys megis ailgylchu, defnyddio ynni'n effeithlon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr a rhaid i ni beidio â chaniatáu i fyd natur gael ei adael ar ôl. Gallwn ni gyd wneud lle i fyd natur, ac mae angen i ni wneud hynny, ar gyfer ein hiechyd a'n llesiant ein hunain, yn awr ac at y dyfodol.

Dengys yr awgrymiadau isod sut y gallwch ddod â byd natur i mewn i'ch polisïau amgylcheddol ac mae'r canllaw'n nodi'r camau syml y gallwch eu cymryd gartref neu yn y gwaith i roi'r gorau i bethau sy'n niweidio byd natur a chynyddu camau a fydd yn helpu natur a bywyd gwyllt i ffynnu.





# Ffyrdd Didrafferth o Helpu Byd Natur i Ffynnu

## Dan do

**<u>Pryfed cop, pryfed a phryfetach eraill</u>**

**Ffordd Natur**
A wyddoch chi fod y pryfed cop hynny sydd â choesau hirion yn bwyta pryfed cop eraill, hyd yn oed rhai mawr? Felly os nad ydych yn hoff o bryfed cop, mae'r rheini â choesau hirion yn gyfaill i chi. Mae pryfed cop eraill yn wych am fwyta pethau fel pryfed a mosgitos a all gario clefyd. Mae mintys yn effeithiol am gadw pryfed draw a byddai'n hawdd tyfu peth mewn potyn ger y drws. Yn yr adeilad, gall olew sitronela a rhosmari fod yn effeithiol iawn ac mae'n rhoi arogl da i'r ystafell.



**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**
Os na allwch fyw gyda'r creaduriaid bach diniwed yn ein cartrefi, rhowch nhw tu allan a beth am gasglu concyrs yn yr hydref a'u rhoi ar silffoedd ffenest; dywedir eu bod yn cadw pryfed cop i ffwrdd.



**Gair i gall!**
Dylid defnyddio pryfladdwyr cemegol â phwyll mawr, darllenwch y cyfarwyddiadau ac, os ydych dal am eu defnyddio, dilynwch nhw â gofal. Cofiwch y byddwch chi a'ch cydweithwyr yn anadlu'r cemegion hynny hefyd.

# Cegin

## Gweddillion bwyd

**Ffordd Natur**

Gwnewch fwrdd adar (allan o ddarn fflat o blastig / caead mawr, â thyllau ynddo a'i hongian o fachyn y tu allan i ffenest y gegin), a rhoi'r tameidiau arno. Cofiwch ddod ag ef i mewn ar ddiwedd y dydd a'i olchi'n drylwyr.

Os ydych yn garddio, gwnewch le ar gyfer bin compost. Gellir rhoi gweddillion llysiau, ffrwythau, salad, plisg wyau ynddo i bydru ac yna gallwch roi'r holl faeth ynddynt yn eich pridd am ddim yn ogystal â rhoi cartref i lu o greaduriaid bach. Gallwch ddysgu sut i ddechrau compostio **yma**. Neu beth am ystyried cadw ieir; byddant yn bwyta'r rhan fwyaf o'ch gweddillion o'r gegin ac yn rhoi wyau i chi.

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**

Bin ailgylchu gwastraff bwyd / cadi cegin i'r cyngor ei gasglu.

**Gair i gall!**

Peidiwch â'u rhoi yn y bin i fynd i safle tirlenwi, fe allech gael dirwy gan y cyngor.



## Cadw pethau'n lân

**Ffordd Natur**

Glanhewch finiau compost, byrddau adar ac ati yn rheolaidd. Mae arwynebau a chynhwysyddion glân yn cadw pryfed a fermin i ffwrdd; does dim byd yno iddynt. Mae glanhau'n rheolaidd â chynnyrch glanhau tŷ sylfaenol yn ddigon, ond y peth pwysicaf yw ei wneud!

**Gair i gall!**

Peidiwch â gwastraffu amser ac arian ar lwyth o gemegion.







# Helpu i warchod bywyd afonydd a’r môr drwy leihau llygredd yn ein cyrsiau dŵr

## I Lawr y Draen

**Ffordd Natur**
Cadwch hen botel olew a thywallt yr olew a’r saim dros ben iddi. Ar ôl ei llenwi gallwch fynd â hi i safle ailgylchu’r awdurdod lleol; mae’r mwyafrif ohonynt yn derbyn olew er mwyn gwneud biodiesel. Dylid sicrhau bod y gliter mewn bomiau bath a’r gronynnau mewn sebonau sgrwbio wedi’u gwneud o halen, mica naturiol, plisg cnau neu gynhyrchion eraill a fydd yn pydru heb wneud niwed.

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**
Tywallt olew a saim ar ddarn o bapur a’i roi yn y bin neu mewn compost.

**Gair i gall!**
Nid yw saim ac olew yn cymysgu â dŵr. Felly bydd unrhyw saim ac olew sy’n mynd i lawr y draen yn mynd drwy’r holl system ac yna i’r afon neu’r môr. Fe wyddem ni gyd nad yw olew’n dda i adar felly does neb am weld bywyd gwyllt ag olew arno.



# Ystafell Ymolchi





## Glanhau

**Ffordd Natur**
Soda golchi – rhad, ecogyfeillgar ac amlddefnydd e.e. glanhau’r popty, dileu staen te, meddalu dŵr. Mae **sebon cywarch** yn anhygoel. Mae’n glanhau pethau roeddech yn meddwl oedd tu hwnt i bob gobaith! Mae’n edrych yn ddrud ond ychydig bach iawn ohono sydd angen ei ddefnyddio ar y tro. Nerth bôn braich – mae’n gwneud gwyrthiau!

**I Lawr y Draen**

**Ffordd Natur**

Er bod carthffosiaeth yn cael ei thrin, mae'r system weithiau'n gwegian ac mae llawer o bethau'n mynd drwodd ac yn y diwedd yn cyrraedd y traeth. Ie wir, y traeth lle rydych yn mynd am y diwrnod neu ar wyliau. Plastig yw llawer o'r pethau hyn felly byddant yn y dŵr am gannoedd o flynyddoedd a gallant fod mewn pysgod, yr un rhai ag rydym yn eu bwyta! Felly os nad yw'n un o'r tair P, rhowch e' yn y bin, gallech fod yn achub crwban môr neu forfil bob tro ac achub eich plant rhag dod o hyd i rywbeth annymunol wrth gael hwyl yn y dŵr.



Defnyddiwch dim ond faint sydd ei angen o ddeunydd glanhau toiled a defnyddio cynnyrch sy'n cael effaith fach ac yn troi'n ddeunydd diniwed yn gyflym. Defnyddiwch ddulliau naturiol o berarogli ystafell megis planhigion â dail pêr ac olew naws.

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**

Defnyddiwch dim ond faint sydd ei angen o ddeunydd glanhau a defnyddio cynnyrch sy'n cael effaith fach ac yn troi'n ddeunydd diniwed yn gyflym. Defnyddiwch ddigon o gynnyrch a nerth bôn braich i fod yn lân, ond gwnewch yn siwr nad oes cynnyrch yn mynd i lawr y draen drwy'r amser. Peidiwch byth â rhoi ffyn gwlân cotwm, hancesi gwlyb na chynnyrch  glanweithiol yn y toiled; dylai'r rhain i gyd fynd yn y bin.



**Gair i gall!**

A oes angen i'r dŵr fod yn las? I ble mae'r lliw a'r cynnyrch glanhau yn mynd?



**Dim ond tri pheth a ddylai fynd yn y toiled; y tair P: pwpw, pipi, papur.**

# Y Tu Allan

**Does gennym prin dim lle tu allan /**
**Rydym ar dir halogedig**

**Ffordd Natur**

Gardd fertigol? Gall hyn fod mor syml â defnyddio hen baled pren a'i osod yn sownd wrth y wal (naill ai rhoi deunydd leinio ar un ochr neu ei roi'n wastad ar y llawr neu ar res o friciau), ei lenwi â phridd a chompost heb fawnog ynddo a gwthio hadau a thoriadau planhigion i'r tyllau (gallwch drochi'r toriadau mewn powdr gwreiddio yn gyntaf i'w rhoi ar ben ffordd).



Mae bagiau cludo mawr ('dumpy bags') yn gwneud gwely blodau gwych! Gallwch greu ymylwaith ond does dim angen iddo fod yn gryf. Gallwch hyd yn oed blannu coeden mewn bag cludo mawr. Gallwch weithiau gael compost am ddim o safle compostio eich cyngor lleol ond gwnewch yn siwr ei fod yn iawn ar gyfer llysiau os ydych am ei ddefnyddio at hynny. Beth am lenwi hen gynhwysyddion megis sinc, bath, bwced i wneud gwely blodau? (Mae angen twll ynddynt, felly mae un sy'n gollwng yn berffaith!) Mae yna syniadau eraill ar gael **yma**.



**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**

Hyd yn oed os mai dim ond wal sydd gennych, gallech osod blychau nythu neu westy pryfed arni.

**Gair i gall!**

Peidiwch â chael gwared â phopeth byw o'ch ardal tu allan na rhoi gorchudd anhydraidd ar bob arwyneb. Nid yw hyn yn gwneud dim daioni i fywyd gwyllt na dim byd ar gyfer dŵr ffo i atal llifogydd. Gallwch gael gwybod mwy am rôl plannu a llifogydd **yma.**





**A wyddoch chi fod dros 200 o fathau o wenyn ym Mhrydain a bod arnynt angen amrywiaeth wahanol o gynefinoedd i oroesi?**

**<u>Rydym am gael rhywbeth 'artistig'</u>**

**Ffordd Natur**

Strwythur a adeiladir yn benodol i amrywiaeth o chwilod, gwenyn ac ati yw gwesty pryfed. Mae gwesty pryfed yn brosiect gwych i'r ardd neu mewn buarth hyd yn oed. Gall fod mor syml â gwthio cansenni mewn i gan tin neu gall fod yn waith pensaernïol neu gelf go iawn. Os ydych angen strwythur, ffens, wal neu hyd yn oed sedd, beth am gynnwys gwesty pryfed ynddo? **<u>Dyma rai enghreifftiau</u>**.

Os gallwch gynnwys gwesty pryfed mewn strwythur ynghyd â blychau nythu i'r adar neu ystlumod yna rydych yn rhoi pob cymorth y gallwch i fyd natur. **<u>Dyma</u>** enghraifft o gysgodfa biniau grand sydd hefyd yn westy pryfed a adeiladwyd gan Gymdeithas Dai. Neu **<u>dyma</u>** wal gerrig sych, sydd ynddi ei hun yn lle gwych i natur gydag ardal pryfed wedi'i chynnwys ynddi.

**Gair i gall!**

Os ydych yn defnyddio stwff i ladd malwod, chwistrellyddion, lladdwyr chwyn lawnt a'r holl bethau eraill sydd ar gael i wneud eich gardd yn 'berffaith', efallai ei fod wrth fodd y llygad ond fe ddylai rewi'r galon gan y byddwch yn gwneud eich gardd yn lle gwenwynig i fyd natur ac yn lladd llawer mwy nag roeddech erioed wedi'i fwriadu.



**<u>Plannu ar gyfer Pryfed Peillio:</u>**
**Plannwch flodau agored; sylwch ar ba blanhigion sy'n denu gwenyn a glöynnod byw mewn gerddi eraill neu yn y ganolfan arddio.**

**Dewiswch blanhigion i flodeuo drwy gydol y flwyddyn, e.e. gwanwyn - crocws, diwedd yr hydref - eiddew, pan nad oes blodau eraill ar gael. Mae llawer o gyngor ar gael arlein a dyma <u>wefan</u> dda i ddechrau arni wrth blannu ar gyfer pryfed peillio.**

**<u>Rheoli pla:</u>**
**Os yw'r cynnyrch yn dweud ei fod yn lladd pryfed yna mae'n lladd pob creadur gan gynnwys gwenyn, y fuwch goch gota a glöynnod byw. Mae'r fuwch goch gota yn bwyta llyslau, megis llau'r coed, a gall gwenyn wneud mêl o'u melwlith gludiog. Os ydynt yn mynd yn rhemp chwistrellwch ddŵr ar y planhigyn i'w bwrw i lawr ond gadewch rai ar gyfer y fuwch goch gota ifanc.**

**Mae gan y mwyafrif o blâu'r ardd ysglyfaethwyr defnyddiol ac os gallwch wneud yr ardd yn atyniadol i'r ysglyfaethwyr yna byddant yn cadw niferoedd y plâu i lawr yn naturiol a bydd yr ardd ar yr un pryd yn hafan i bryfed peillio.**

# Ecosystemau-Bach



## Compost

**Ffordd Natur**
Does dim man canol yma – defnyddiwch gompost heb fawn yn unig. Os yw'n dweud 50% heb fawn yna mae 50% ohono yn cynnwys mawn.

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**
Gwnewch yn siwr y tyfwyd y planhigion rydych yn eu prynu mewn compost heb fawn yn ogystal, yn lleol yn ddelfrydol ond ym Mhrydain yn bendant.

**Gair i gall!**
Mae echdynnu mawn yn dinistrio cynefinoedd prin ac yn rhyddhau $CO_2$ i'r atmosffer. Mae compost ag unrhyw fawn ynddo hefyd yn dinistrio cynefinoedd prin ac yn cynyddu lefelau $CO_2$. Cewch wybod mwy **yma.**



## Gwrychoedd

**Ffordd Natur**
Gall gwrychoedd a choed ychwanegu gymaint mwy o fywyd gwyllt i'r man dan sylw gan eu bod yn tyfu am i fyny. Mewn un gwrych yn Nyfnaint roedd yna dros 2,000 o fathau o blanhigion ac anifeiliaid. Roedd yn 85m o hyd ac roedd ganddo ffos a chlawdd felly efallai ei fod yn fwy na'r hyn y gall eich prosiect ei wneud ond gall hyd yn oed ychydig o droedfeddi o wrychoedd gynnig lle ychwanegol i fyd natur, yn ogystal â mwy o breifatrwydd i'ch ardal a'i hynysu rhag sŵn. Planhigion cynhenid yw'r dewis gorau. Cewch wybod mwy am wrychoedd **yma.**

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**
Gall hyd yn oed wrych estron â phlanhigion mwy egsotig gynnig lloches a bwyd i fywyd gwyllt.

**Gair i gall!**
Peidiwch â thorri'ch gwrych yn yr hydref pan fydd yn llawn mwyar a chyn i'r adar a'r mamaliaid sy'n gaeafu yma fanteisio arnynt. Mae'n bosib y bydd torri gwrychoedd yr ardd pan fo adar yn nythu yn achosi i'r oedolion adael eu cywion a fyddai'n drosedd. Yn hytrach, dylech dorri'ch gwrychoedd pan fo'n bosib ym mis Ionawr neu Chwefror unwaith mae'r ffrwythau wedi'u bwyta a chyn i'r nythu ddechrau.





## Pyllau dŵr

**Ffordd Natur**
Bydd hyd yn oed ychydig bach o ddŵr yn yr ardd yn cynnig dŵr ffres i adar ei yfed ac ymolchi ynddo ac nid oes angen dim mwy na phwll maint powlen golchi llestri i ychwanegu cryn dipyn at y lle.

Os oes gan eich pwll blanhigion sy'n codi o'r dŵr yna efallai y byddwch yn denu gwas y neidr, y chwilen ddŵr, y pryf hofran a chreaduriaid eraill. Cofiwch wneud yn siwr ei bod yn hawdd i ddraenogod ddod allan o'r dŵr; maent yn nofio'n dda ond angen ffordd allan. Hyd yn oed mewn pwll maint bath babi efallai y byddwch yn ddigon lwcus i ddenu broga neu lyffant, a fydd yn rheoli'r malwod i chi. Cewch wybod mwy **yma.**

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**
Wrth gael gwared â dyfrllys defnyddiwch gribin a thynnu'r dyfrllys at ochr y pwll, ei adael yno am rai diwrnodau fel y gall y creaduriaid fynd yn ôl i'r pwll ac yna compostiwch y dyfrllys.

**Gair i gall!**
Os ydych yn penderfynu bod yn rhaid i chi gael gwared â phwll dewiswch amser o'r flwyddyn pan fo cyn lleied â phosib ynddo. Nid yw hyn yn hawdd gan fod pwll dŵr yn werthfawr i fywyd gwyllt drwy gydol y flwyddyn. Ceisiwch ddod o hyd i bwll arall sy'n agos iawn i symud unrhyw greaduriaid iddo ond peidiwch â'u symud unrhyw bellter neu efallai y byddwch yn cyflwyno clefyd. Yn well fyth, symudwch y pwll i rywle arall yn eich gardd, cloddio'r un newydd yn gyntaf ac yna symud y dŵr drosodd.

## Siediau a chysgodfeydd

**Ffordd Natur**
Mae'ch sied eisoes yn rhoi lloches i lawer o bryfed cop a phryfed eraill ond mae modd gwneud pob cysgodfa y tu allan yn hafan werthfawr i fywyd gwyllt. Wrth godi'ch sied, beth am roi to 'gwyrdd' arni? Bydd hyn yn rhoi cynefin naturiol yn lle'r un mae'ch sied wedi'i orchuddio. Dewiswch laswellt blodau cynhenid neu blanhigion gwydn a all ymdopi mewn man sych megis teim i roi gymaint o fudd â phosib i fyd natur. Mae toeau gwyrdd hefyd yn arafu dŵr ffo ac yn helpu i atal llifogydd a dwrlawn, cewch wybod mwy **yma.**







## A wyddoch chi ei bod yn anghyfreithlon codi unrhyw blanhigion o'r gwyllt, ond gyda bron pob un heblaw'r rhai prinnaf gallwch gymryd rhai hadau?

## Atal chwyn

### Ffordd Natur

I atal chwyn mewn ffordd sy'n dda i fyd natur defnyddiwch domwellt da, gwell fyth fyddai compost rydych wedi'i wneud eich hun. Rhowch ddigon o ddŵr ar y tir cyn rhoi haen drwchus o domwellt. Bydd hyn nid yn unig yn atal chwyn ond wrth i chi ychwanegu ato flwyddyn ar ôl blwyddyn bydd yn gwella'r pridd wrth i'r creaduriaid bach, a fydd wrth eu boddau ynddo, ei dreulio. Os ydych yn defnyddio darnau o risgl gwnewch yn siwr eu bod o Brydain, nid pren caled wedi'i fewnforio. Cewch wybod mwy am domwellt **yma.**

### Camau yn y Cyfeiriad Cywir

Dyw tomwellt na fydd yn pydru, megis graean neu wydr mâl, ddim cystal i fyd natur, ond maent yn dal i fod yn well na philenni (membranes).

### Gair i gall!

Mae'n hawdd cael eich temtio i ddefnyddio pilen sy'n atal chwyn gan ei fod yn lleihau gwaith ond mae hefyd yn atal creaduriaid fel y pryf genwair rhag dod o hyd i fwyd ac yn atal adar rhag gallu chwilota am y creaduriaid bach hynny.

**Ffwng:**

**Defnyddir ffwngladdwyr yn eang mewn gerddi ac amaethyddiaeth heb feddwl y gallent gael effeithiau ehangach ond rydym bellach yn dechrau sylweddoli bod y mwyafrif o blanhigion, pob un o bosib, yn dibynnu ar ffyngau i gael llawer o'u maetholion ac i ffynnu. Pan fyddwn yn chwistrellu ffwngladdwyr rydym yn lladd y ffyngau hyn hefyd. Gallwch gael gwybod mwy am y berthynas hon yma.**



## Coed

### Ffordd Natur

Gall un goeden fawr gynhenid ddarparu’r un faint o fwyd i wenyn ag y gall erw o ddôl blodau gwyllt. Efallai nad oes gennych le ar gyfer  erw o ddôl blodau gwyllt ond mae yna goeden addas i bob lleoliad. Mae’r dderwen ymysg y goreuon i fyd natur ond mae hi’n tyfu i fod yn fawr iawn. Peidiwch â phoeni fodd bynnag, mae hyd yn oed ganopi agored y fedwen neu’r griafolen yn cynnig prydferthwch a llawer iawn o fuddion i fyd natur. Cewch wybod mwy **yma**. Os oes gennych ardal tyfu bwyd, gall coed ffrwythau roi cynnyrch i chi yn ogystal â lle ychwanegol i natur.



### Camau yn y Cyfeiriad Cywir

Os nad oes gennych le i goeden, ffordd arall o roi budd mawr i fywyd gwyllt yn y man dan sylw yw llwyn blodeuol megis cotoneaster, y gellir ei dyfu yn erbyn wal ac a fydd yn rhoi blodau i’r gwenyn a mwyar i’r adar.



### Gair i gall!

Peidiwch â phlannu coeden a fydd yn tyfu’n rhy fawr yn gyflym. Mae buddion coeden i fyd natur yn tyfu wrth iddi hithau dyfu a chollir hyn os oes rhaid ei thorri. Os ydych yn tyfu coed ffrwythau, ceisiwch beidio â defnyddio plaladdwyr.



**A wyddoch chi fod gan bren marw fwy o fywyd ynddo na choedden fyw?**

**Fedwen Arian:**

**Yn darparu bwyd a chynefin i dros 300 o rywogaethau o bryfed. Mae'r dail yn denu llyslau, gan ddarparu bwyd i'r fuwch goch gota a rhywogaethau eraill ymhellach i fyny'r gadwyn fwyd, a hefyd yn blanhigyn y mae lindys llawer o wyfynod yn ei fwyta, gan gynnwys y gwyfyn llenni crychlyd, y blaen brigyn, y fachadain raeanog, a thlws y bedw.**

**Cysylltir y fedwen yn arbennig â mathau penodol o ffwng gan gynnwys amanita'r gwybed, cap llaeth gwlanog, cap llaeth bedw, tegyll brau bedw, marchog bedw, siantrel ac ysgwydd y fedwen. Yn aml mae cnocell y coed ac adar eraill sy'n nythu mewn tyllau yn gwneud nyth yn y boncyff, tra mae'r pila gwyrdd, y llinos werdd a'r llinos bengoch yn bwyta'r hadau.**





**Boncyffion a thocio planhigion:**

**Nid yn unig y mae hen foncyffion a phentwr pren yn cynnig lle i greaduriaid guddio ynddo ond hefyd rhywbeth iddynt ei fwyta. Maent yn ffordd ddelfrydol o ddefnyddio cornel damp, cysgodol. Ceir dau fath - pentwr o foncyffion neu foncyffion wedi'u rhoi yn y tir yn pwyntio tuag i fyny - cewch wybod mwy yma ac yma.**

**Os hoffech rywbeth mwy artistig, beth am ardd fonion fel yr un yma? Gallwch hefyd gynnwys boncyffion â mardach yn tyfu arnynt yn eich pentyrrau ac ychwanegu at gynhyrchedd eich gardd.**

# Mannau Gwyllt



**Ffordd Natur**
Dylech bob amser weld beth sydd yno yn barod cyn dechrau gwneud unrhyw beth mewn mannau gwyllt. Dyw natur ddim i fod yn daclus – er enghraifft, mae llwyni mieri yn fuddiol i lawer o greaduriaid – felly cofiwch gael cyngor cyn dechrau unrhyw beth. Gallwch holi’ch swyddog bioamrywiaeth sirol yn y cyngor neu’ch **Ymddiriedolaeth Natur** leol. Cofiwch ei bod yn bosib nad oes angen gwella rhywle ar gyfer natur, efallai fod angen ychydig o waith cynnal a chadw ond ei fod eisoes yn bwysig iawn i’r pethau sy’n byw yno fel y mae. Bydd unrhyw beth rydych yn ei wneud yn cael effaith a bydd pethau’n cael eu colli yn ogystal â’u hennill felly mae’n bwysig gwybod beth y gallech fod yn ei golli.

Os byddwch yn mynd i wersylla, ceufadu, mwynhau byd natur drwy grefft gwylltir neu un o’r ffyrdd niferus eraill o fod ym myd natur, mae yna gyngor da ar y **wefan hon**.

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**
Dewch â byd natur atoch chi drwy blannu blodau gwyllt.

**Gair i gall!**
Dyw planhigion yr ardd ddim i fod yn y gwyllt, ddim hyd yn oed fel cofeb nac i fywiogi rhywle. Byddwch yn anochel yn niweidio neu’n cymryd lle’r pethau a ddylai fod yno. Gallwch gael gwybod am y planhigion a’r anifeiliaid sy’n achosi trafferth **yma**. Weithiau mae’r rhywogaeth bron â bod yn iawn ond nid union yr un fath â rhywogaethau cynhenid megis clychau'r-gog Sbaenaidd neu gennin Pedr ffansi o’r ardd, gall y rhain fod yr un mor niweidiol â rhywogaethau hollol estron.

Mae’n bosib nad y peth gorau yw gwneud rhywle’n addas i lawer o fathau o greaduriaid os yw’n golygu eich bod yn ei wneud yn llai addas i un creadur arbennig nad yw’n gyffredin mewn mannau eraill.

Peidiwch byth â gadael unrhyw wastraff, hyd yn oed pethau sy’n pydru’n naturiol megis croen oren, yng nghefn gwlad, ewch â’r cyfan adref gyda chi. **Dyma pam.**



**“Mae un cyffyrddiad o natur yn gwneud y byd i gyd yn geraint.”**
**William Shakespeare**

# Bywyd Gwyllt

- **Annog bywyd gwyllt drwy ddarparu mannau bwydo glân a diogel**

- **Annog bywyd gwyllt a chynyddu cynhyrchedd drwy roi maeth yn ôl yn y pridd**

- **Annog bywyd gwyllt drwy greu lleoedd newydd i fyd natur ffynnu**



## Ystlumod

### Ffordd Natur

Mae ystlumod wedi hwn arfer byw'n agos i bobl ac ers blynyddoedd lawer wedi rhannu ein hadeiladau. Ond codir tai modern heb y tyllau a geid mewn hen adeiladau (a heb y drafft) felly mae'n anos iddynt wneud cartref. Gellir rhoi blychau clwydo ar waliau ac mewn coed. Gall un ystlum fwyta 3,000 o bryfed mewn noson a gallant fyw am 40 mlynedd. Bydd gardd sy'n denu creaduriaid bach yn denu ystlumod hefyd. Cewch wybod mwy **yma.**



### Camau yn y Cyfeiriad Cywir

Os ydych yn codi adeilad newydd beth am gynnwys briciau arbennig ar **gyfer ystlumod** sy'n rhoi cartref iddynt heb eu gadael i'r adeilad ei hun.



### Gair i gall!

Mae ystlumod dan warchodaeth gyfreithiol. Os oes gennych ystlumod gofynnwch i swyddog bioamrywiaeth y cyngor neu'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod am gyngor cyn gwneud unrhyw beth a all eu niweidio mewn unrhyw ffordd.

**Adar**

**Ffordd Natur**



Mae adar mewn trafferth, hyd yn oed y rheini a oedd yn arfer bod yn gyffredin megis aderyn y to. Un o'r rhesymau yw llai o lefydd i nythu. Hyd yn oed os nad oes gennych ardd rydych yn debygol o fod â lle i osod blwch nythu. Eich gwobr fydd cael gweld yr holl weithgarwch a gwybod mai chi wnaeth hyn, rhoi cartref i deulu o adar. Gallwch gael gwybod am flychau nythu **yma**, gan gynnwys sut i'w gwneud i'r maint cywir ar gyfer gwahanol adar. Mae bwydo adar yn rhoi llawer o foddhad ac yn eu helpu i oroesi'r gaeaf a bwydo eu cywion yn yr haf. Mae gwahanol adar yn hoffi gwahanol fwydydd, mwy **yma.**



Cofiwch os ydych yn dechrau eu bwydo, mae'r adar yn dod i ddibynnu arnoch felly daliwch ati. Yn ogystal rhaid i chi gadw popeth yn lân iawn gan y gall adar, fel ninnau, ddal heintiau oddi wrth ei gilydd wrth ymgasglu mewn un man. Cofiwch y gall aderyn, neu greadur arall, sydd i'w weld yn gyffredin yn eich ardal chi fod yn brin mewn cyd-destun cenedlaethol neu fyd-eang felly gallech fod yn gwneud gwahaniaeth mawr. Dylem ymfalchïo yn nhreftadaeth naturiol Cymru.

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**

Os ydych yn defnyddio stwff i ladd malwod, dewch o hyd i gynnyrch organig gan fod y rhai traddodiadol yn wenwynig iawn i bopeth a byddant yn lladd mwyalch, draenogod a hefyd y chwilod sy'n bwyta malwod. Mae cyngor ar gael **yma** ar reoli plâu yn organig.

**Gair i gall!**



Peidiwch â bod yn ddigroeso i'r adar; credir bod nyth adar y to yn y bondo yn lwcus ac mae'n ddigon hawdd clirio unrhyw lanast maen nhw, neu adar eraill, yn ei greu. Rhowch ford bren ar y llawr i ddal y baw ac ati; tynnwch y ford unwaith maent wedi gadael y nyth – a mwynhau gwylio'r gwersi hedfan! Yn anffodus mae niferoedd llawer o rywogaethau adar yn plymio, fwy na thebyg oherwydd diffyg pryfed, y mae'r rhan fwyaf o'n hadar yn eu bwyta, (mae hyd yn oed y rheini sy'n bwyta hadau yn bwydo pryfed i'w cywion) ac oherwydd llai a llai o lefydd i nythu.



## Mae pryfed peillio mewn tipyn o drafferth, ond a wyddoch chi fod arnom eu hangen i gynhyrchu traean o'n hoff fwydydd?

**Creaduriaid Bach**

**Ffordd Natur**

Nid gwenyn a glöynnod byw yn unig sy'n diflannu, ond llawer o bryfed defnyddiol eraill, oherwydd ffactorau megis colli cynefin a'r defnydd o blaladdwyr.


**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**

Dylech osgoi blodau dwbl annaturiol; maent wedi colli eu gallu i ddarparu paill a neithdar. Gadewch blanhigion marw dros y gaeaf; maent yn darparu 'blanced gynnes' i blanhigion a chreaduriaid bach dros fisoedd oer y gaeaf.

**Gair i gall!**

Os ydych yn torri popeth yn ôl yn ddidrugaredd ac yn rhoi popeth rydych wedi'i dorri yn y bin gwastraff gwyrdd, bydd eich gardd yn un hesb iawn, nad yw'n groesawgar i natur. Wrth brynu planhigion gofynnwch i'r blanhigfa/y ganolfan arddio pa bryfladdwyr sydd wedi'u defnyddio fel y gallwch brynu'r rhai sydd wedi'u trin leiaf. Mae'n bosib y bydd gofyn y cwestiynau hyn yn helpu i newid arferion prynu planhigfeydd a chanolfannau garddio hefyd. Dylid yn sicr osgoi planhigion lle defnyddiwyd plaladdwyr systemig gan eu bod yn gwenwyno'r planhigyn cyfan am wythnosau.

**Gwenyn meirch:**
**Gall gwenyn meirch fod yn boen os ydynt yn nythu'n agos atoch a hefyd yn yr hydref. Ond pam nad ydych yn sylwi arnynt tan hynny? Oherwydd drwy gydol yr haf maent yn casglu lindys i fwydo eu hepil ac yn rhy brysur i'ch trafferthu. A wyddoch chi y gall gadael hen nyth gwenyn meirch lle y mae wneud brenhines newydd yn llai tebygol o ymgartrefu yno yn y dyfodol?**



**Pryfed Hofran:**
**A ydych wedi sylwi ar bryfed sy'n edrych yn debyg i wenyn meirch ond yn treulio eu holl amser yn hofran o amgylch blodau? Pryfed hofran yw'r rhain ac maent yn fuddiol iawn i'r ardd gan eu bod yn bwyta llyslau a phlâu bach eraill. Maent fel arfer yn dechrau fel pethau cynrhonllyd mewn dŵr ac yna'n troi'n greadur sy'n dynwared gwenyn neu wenyn meirch. Nid ydynt yn gallu pigo o gwbl ond maent am i ysglyfaethwyr feddwl y gallant. Mae arnynt angen blodau agored â thiwb byr iawn at y neithdar. Cewch wybod mwy yma. Bydd lladd y pryfed hofran hynny wrth ddefnyddio pryfladdwyr ar eich blodau yn gwneud eich gardd yn fwy diogel i blâu sy'n bridio'n gyflym a hefyd yn lladd y fuwch goch gota a'r adain siderog.**

## Draenogod

### Ffordd Natur

Mae mwy nag un achos dros hyn ond gallwn helpu. Mae arnynt angen ardaloedd mawr i chwilio am fwyd, o leiaf mor fawr â chae pêl-droed, ac un o'r rhesymau maent yn dirywio yw na allant fynd o ardd i ardd felly wrth godi ffens gwnewch yn siwr bod lle i ddraenogod fynd trwyddi. Mae arnynt hefyd angen lle diogel i gysgu, rhoi geni a gaeafgysgu. Cewch wybod mwy **yma.**




### Camau yn y Cyfeiriad Cywir

Mae draenogod yn bwyta pryfetach, ond maent hefyd yn gwerthfawrogi bisgedi cathod neu fwyd ci a adewir allan iddynt.



### Gair i gall!

Eto, mae gardd rhy daclus, pob darn o wair wedi'i strimio a'i dorri, gyda ffensys heb dwll o gwbl ynddynt a phlaladdwyr ym mhobman, yn ofnadwy i ddraenogod. Perygl mawr arall yw cyfarpar garddio trydanol, yn enwedig peiriannau strimio, felly byddwch yn ofalus o ddraenogod wrth eu defnyddio.



**A wyddoch chi fod draenogod wedi bod yn crwydro'r byd ymhell cyn y ddynolryw?**



# Mae natur yn faes brwydr, weithiau gallwch ddefnyddio hyn i helpu i reoli plâu

## Plaladdwyr Natur

### Ffordd Natur

Rydym wedi bod wrthi'n brwydro yn erbyn plâu'r ardd byth ers i ni ddechrau tyfu bwyd. Un ffordd naturiol o frwydro yn eu herbyn pan fo eu heffaith yn mynd yn ormod yw defnyddio dulliau meddal megis nematodau, a fydd yn targedu rhywogaethau penodol yn unig. Gellir defnyddio  nematodau ar blâu amrywiol gan gynnwys y rhai anodd iawn megis malwod a gwiddon gwinwydd. Wrth gwrs, byddwch yn helpu ysglyfaethwyr eraill i frwydro ar eich rhan drwy wneud eich gardd yn groesawgar i natur a bydd y fuwch goch gota, yr adain siderog, y pryf hofran a hyd yn oed gwenyn yn cadw niferoedd y 'cnowyr planhigion' yn isel.



### Camau yn y Cyfeiriad Cywir

Mae modd prynu buchod coch cwta ac ysglyfaethwyr eraill i'w rhoi mewn tŷ gwydr i reoli pethau fel llyslau. Mae angen i chi fod â phroblem cyn eu cyflwyno neu ni fydd ganddynt ddim byd i'w fwyta.



### Gair y gall!

Peidiwch â chyflwyno creaduriaid estron i'ch gardd. Gall hyd yn oed greaduriaid sy'n ymddangos yn ddiniwed gael effaith fawr iawn megis y fuwch gota amryliw, sydd wedi gorchfygu'r byd ar ôl cael ei chyflwyno i America ac Ewrop i fwyta llyslau. Yn anffodus mae hi hefyd yn bwyta ein buchod coch cwta cynhenid. Mae mwy o wybodaeth ar gael **yma**

**Malwod**

**Ffordd Natur**

Mae rhai malwod yn niweidio planhigion – ond nid pob un! A wyddoch chi fod rhai malwod yn bwyta malwod? Felly mae rhai malwod yn fuddiol i'r ardd. Mae yna sawl ffordd o atal malwod na fydd yn niweidiol i greaduriaid eraill, cewch wybod mwy **yma.** Dewis arall yw defnyddio nematodau, mwydyn bach iawn sy'n bwyta malwod.

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**

Mae yna gynnyrch organig ar gael i ladd malwod ond dilynwch y cyfarwyddiadau'n ofalus gan eu bod hefyd yn lladd pryfed genwair. Gallwch wneud **'potiau corgimwch'** drwy dorri gwddf potel bop, rhoi'r gwddf yn ôl i mewn i'r botel a'i roi'n sownd â thâp. Rhowch y cynnyrch organig yn y botel fel y bydd y malwod yn mynd i mewn ac yn methu dod allan. O ganlyniad ni fydd y cynnyrch yn mynd i'r pridd a dylai hyn warchod y pryfed genwair.

**Gair i gall!**

Mae defnyddio cynnyrch metaldehyd a methiocarb yn peryglu llawer o bethau ym myd natur, yn ogystal â chŵn a phlant. Cewch wybod mwy **yma.**








# Digwyddiadau

**Rhyddhau balŵns a llusernau**

**Ffordd Natur**

Does dim ffordd dda o wneud hyn, gall rhyddhau balŵns a llusernau sy'n pydru'n naturiol hyd yn oed wneud niwed mawr.



**Gair y gall!**

Mae balŵns heliwm yn cael eu chwythu gan y gwynt ac ar ôl i'r aer fynd ohonynt maent yn lladd anifeiliaid fferm, bywyd gwyllt a chreaduriaid y môr yn ogystal â chreu sbwriel. Gall llusernau fod yn waeth fyth! Mae rhai wedi achosi tanau difrifol. Cewch wybod mwy yma.

**<u>Tân</u>**



**Ffordd Natur**
Casglwch goed ar gyfer coelcerth ond peidiwch â'i chodi tan y diwrnod y byddwch yn ei thanio, er mwyn sicrhau nad oes yna ddraenogod na chreaduriaid eraill yn cysgodi ynddi. Dylid sicrhau bod y tân ymhell o wrychoedd a choed. Ar gyfer tân bach a barbeciw defnyddiwch ddarn o fetel neu gerrig gwastad rhag gwneud niwed i'r tir.




**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**
Peidiwch byth â chodi coelcerth ymlaen llaw, bydd creaduriaid yn ymgartrefu ynddi. Peidiwch byth â gwneud tân o dan goed nac wrth ymyl gwrychoedd, bydd yn gwneud niwed parhaol iddynt a gall eu lladd.




**Gair y gall!**
Peidiwch â llosgi pren â phaent arno gan y gall hyn ryddhau mwg gwenwynig.

**<u>Y safle</u>**

**Ffordd Natur**
Mae pawb wrth eu bodd yn cael hwyl yn yr awyr agored ac mae'n ffordd wych o ddiolch i bobl am eu hymdrechion, dathlu'ch llwyddiannau a rhoi gwybod i bobl newydd am yr hyn rydych yn ei wneud. Serch hynny, gall dyfodiad dros dro criw mawr o bobl gael cryn effaith.

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**
Dylech wirio'r ardal cyn dechrau i sicrhau nad oes arwydd amlwg o rywbeth a allai gael ei niweidio gan eich gweithgaredd.

**Gair y gall!**
Meddyliwch am beth y gallech fod yn tarfu arno, a oes yna adar yn nythu, a allwch fynd ymhellach oddi wrthynt neu gynnal y digwyddiad y tu allan i'r cyfnod nythu? Mae'n bosib y bydd digwyddiad gyda'r nos yn cael mwy o effaith ar rai anifeiliaid. A ydych yn bwriadu defnyddio tân gwyllt? Ai dyma'r lle gorau i'w tanio?

## Cyfarpar

**Ffordd Natur**
Dylai pawb gofio hen ddywediad yr Arglwydd Baden Powell: *“Gadewch ddim byd ar ôl ond eich diolchgarwch.”*

Gwnewch y gorchwyl yn haws drwy sicrhau bod modd ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio popeth a ddefnyddir. Gallwch hyd yn oed gael cyllyll a ffyrc y gellir eu compostio. Mewn byd delfrydol byddai pawb yn mynd â’u gwastraff eu hunain adref.

**Camau yn y Cyfeiriad Cywir**
Rhowch drefn ar y sbwriel a’r ailgylchu a sicrhau bod pobl yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt a’ch bod yn gwybod sut i waredu popeth yn gyfrifol. Os ydych yn gosod posteri a baneri cofiwch eu tynnu i lawr wedyn.

**Gair y gall!**
Peidiwch â gadael i bobl ymddwyn fel rhai mynychwyr gwyliau, gan adael popeth o’r pebyll i’r welis yn y cae. **Mwy yma.**







**“Fel cerdd a chelf, mae cariad at fyd natur yn iaith gyffredin sy’n mynd y tu hwnt i ffiniau gwleidyddol a chymdeithasol.” - Jimmy Carter**

# Cynnwys Byd Natur mewn Polisi Amgylcheddol

**Pam llunio polisi sy'n cefnogi ac yn cynorthwyo byd natur?**

• Yn bwysicaf oll, fel mudiadau gwirfoddol cyfrifol, rydym yn aml yn ceisio dylanwadu ar eraill drwy ein hegwyddorion a'n hymddygiad.

• Yn ail, rydym mewn sefyllfa berffaith i ysgogi ac annog newid positif mewn ymddygiad drwy ein gweithredoedd ein hunain a'n ffyrdd o oresgyn rhwystrau.

• Yn drydydd, mae cyllidwyr neu bobl sydd efallai am gaffael ein gwasanaethau am i ni ddangos ein bod yn fudiad cymdeithasol gyfrifol, cymesur a chynaliadwy.





**Dengys yr awgrymiadau isod rai enghreifftiau o sut i gynnwys byd natur mewn polisi amgylcheddol:**

**1. Nodi dealltwriaeth neu ymrwymiad**
Mae hyn yn datgan yr hyn mae'ch grŵp yn ei gredu ac yn gobeithio ei gyflawni.

E.e. **Mae Enw'r Grŵp** yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo, gwarchod a gwella'r amgylchedd er mwyn ateb ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; yn enwedig Nod 2: *"Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)."*

I'r perwyl hwn, **mae Enw'r Grŵp** yn ymrwymo yn ei holl weithgareddau i sicrhau ei fod yn gweithredu i gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol:

E.e. **Mae Enw'r Grŵp** yn ystyried bod gwneud lle i fyd natur yn elfen hanfodol o weithgaredd datblygu cymunedol. Ni all unigolion na chymunedau ymarfer rheolaeth lawn ac ystyriol dros eu bywydau eu hunain onid oes ganddynt yn ogystal rywfaint o gyfrifoldeb a'r gallu i ddylanwadu ar eu hamgylchedd eu hunain. Mae Enw'r Grŵp yn ymrwymo i wneud ei waith ei hun yn enghraifft o arfer gorau i eraill yn y maes.



**2. Rhestru'r camau y mae'ch grŵp yn bwriadu eu cymryd**

Mae'n ddigon posib fod eich polisi amgylcheddol eisoes yn cynnwys pethau megis ailgylchu, defnyddio adnoddau, y newid yn yr hinsawdd neu ddefnyddio ynni'n effeithlon. Os nad yw byd natur wedi'i gynnwys, dyma rai awgrymiadau. Efallai na fydd pob un o'r rhain yn berthnasol i'ch grŵp chi ac efallai fod yna lawer o gamau eraill y byddai'n well gennych eu cymryd, ond mae'r canllaw Buddsoddi ym Myd Natur yn rhoi ambell i syniad i chi eu hystyried.



**Yr Amgylchedd Naturiol:**

**Bydd Enw'r Grŵp** yn:

• Annog bywyd gwyllt i sefydlu cynefinoedd newydd ar ein tir
• Darparu cyfleoedd i fywyd gwyllt fwydo
• Creu cynefin neu fan bwydo newydd bob blwyddyn
• Ystyried byd natur yn ein holl weithredoedd
• Cael cyngor wrth gynllunio prosiectau ar beth allai'r effeithiau fod a sut i leihau effeithiau negyddol ar fyd natur



Yn ogystal:

• Bydd cynnyrch coed yn deillio o goedwig leol (pan fo'n bosib), a reolir yn gynaliadwy
• Bydd cynnyrch glanhau yn gyfyngedig, o ran faint a ddefnyddir a nifer y cynhyrchion.
• Ni ddefnyddir cynnyrch â mawnog ynddo na chynnyrch sy'n deillio o fawnog

**Perthynas ag Eraill:**

• **Bydd Enw'r Grŵp** yn sicrhau bod ei arferion yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau sy'n gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau ac ni fydd yn gweithio gyda'r rheini sy'n mynd yn groes i'r gyfraith.

**Mae'r adrannau canlynol yn debygol o fod yn eich Polisi Amgylcheddol yn barod ac maent yma er gwybodaeth yn unig. Os nad oes gan eich grŵp Bolisi Amgylcheddol, mae arweiniad WCVA ar lunio un ar gael yma.**







**Monitro:**

• **Bydd Enw'r Grŵp** yn monitro'n flynyddol y ffordd y rhoddir y polisi hwn ar waith er mwyn sicrhau bod ei arferion yn cydymffurfio â gofynion y Polisi.

• Bydd yn adrodd ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi mewn cysylltiad â'r polisi mewn adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd/grŵp llywio.

• Bydd pob aelod o staff a gwirfoddolwr yn ymdrechu i roi'r polisi hwn ar waith ym mhob agwedd ar y busnes; ac i'r perwyl hwnnw bydd cynigion ar gyfer gwelliannau yn cael eu hanfon at **Teitl y Rôl** i'w hystyried a'u rhoi ar waith.

Maes o law bydd y Bwrdd/grŵp llywio yn ystyried gosod targedau penodol er mwyn monitro a gwerthuso'n agosach ein perfformiad wrth roi'r polisi hwn ar waith

**Cyfrifoldebau:**

Mae'r ymrwymiad hwn yn effeithio ar bawb sy'n gweithio gyda'r mudiad ac iddo, gan gynnwys aelodau o'r Bwrdd, aelodau o staff a gwirfoddolwyr. Ar **Teitl y Rôl** y mae'r cyfrifoldeb am roi'r polisi hwn ar waith.

**Hyrwyddo:**

Bydd pob aelod o'r Bwrdd, pob aelod o staff a phob gwirfoddolwr yn cael copi o'r polisi hwn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'i gynnwys a'i ofynion.

# Mynd Ymhellach

Os hoffech wneud mwy dros fyd natur mae yna syniadau ac adnoddau pellach ar gael ar **www.wcva.org.uk/invest-in-nature-cymru**





Gallwch hefyd ddarganfod sut mae'ch gweithredoedd yn cyfrannu at amgylchedd cydnerth a bioamrywiol ar lefel genedlaethol, drwy ddarllen **Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru.**

Buddsoddi yn Natur Cymru
*Invest in Nature Cymru*

www.r4c.org.uk

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn gan Alison Davies a Jo Horsley o **Resources for Change** ar gyfer **Buddsoddi yn Natur Cymru** gyda chyllid gan **Lywodraeth Cymru.**